# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

**RHAN 6**

FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

**PENNOD 3**

GOHIRIO TRETH

**63 Methu â chydymffurfio â chytundeb ACC i ohirio**

(1) Os yw ACC o’r farn fod y prynwr—

(a) wedi methu cydymffurfio ag amod a osodwyd o dan adran 58(6)(c) neu a amrywiwyd o dan adran 62, neu

(b) mewn perthynas â’r cais gohirio neu gais a wnaed o dan adran 62(1)—

(i) wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, neu

(ii) wedi atal gwybodaeth,

mae’r cais gohirio i’w drin fel pe na bai erioed wedi ei wneud (ac mae adran 57 o’r Ddeddf hon ac adran 157 o DCRhT yn gymwys yn unol â hynny).

(2) Mewn achos o’r fath rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i’r prynwr yn datgan bod y cais gohirio i’w drin fel pe na bai erioed wedi ei wneud ac yn nodi canlyniadau hynny.